**CYNGOR CYMUNED *LLANWINIO* COMMUNITY COUNCIL**

Cynhaliwyd cyfarfod o Gyngor Cymuned Llanwinio ar nos Fawrth 15fed o Fai 2018 am 8.00yh yn Neuadd Gymuned Llanwinio.

**PRESENNOL:** Cyng P Walton, J Phillips, H James, R Gallie, D Lewis a K Bowen (clerc).

**YMDDIHEURIADAU:** Cyng G Evans, W Evans a J Lewis (CSC)

**COFNODION:** Darllenwyd cofnodion cyfarfod 20fed o Fawrth a derbyniwyd yn gywir.

**DATGANIADAU O DDIDDORDEB:** Dim

**MATERION YN CODI**: Dim

**RhDDC A MANYLION CYNGHORWYR:**

Gwnaeth cynghorwyr drafod y Rheolau Diogelu Data Cyffredinol Newydd a rhoddi caniatad i'w manylion cyswllt gael eu cynnwys ar wefan y Cyngor.

**ADRODDIAD PCA:**

Gwnaeth cynghorwyrd drafod adroddiad y Panel Cydnabyddiaeth Annibynnol a penderfynwyd i beidio hawlio unrhyw gostau am ddefnydd teleffon, T.G. a nwyddau traul am eleni.

**ARCHWILIAD MEWNOL:**

Mae'r archwiliad mewnol wedi ei gwblhau a adroddiad wedi ei dderbyn. Nid oedd unrhyw faterion oedd eisiau ymateb iddo. Gwnaeth y clerc gyflwyno i'r Cyngor y Dogfennau Dychwelyd Blynyddol am y flwyddyn yn gorffen 31 o Fawrth 2018. Cafodd y cyfrifion a'r Datganiad Llywodraethol Blynyddol eu cymeradwyo gan y Cyngor.

**GOHEBIAETH:**

Cafodd llythyr adnewyddu yswiriant 'Cynghorau Lleol' ei dderbyn oddi wrth Broceriaid Yswiriant BHIB. Yn dilyn trafodaeth penderfynwyd derbyn y cynnig.

Derbyniwyd gwybodaeth oddi wrth Bwrdd Iechyd Brifysgol Hywel Dda ynglyn a'r opsiynau am newidiadau i'r gwasanaeth yn y dyfodol.

Derbyniwyd llythyr o ddiolch oddi wrth Y Cardi Bach am y rhodd roedd y Cyngor wedi ei wneud.

Daeth gwybodaeth oddi wrth CSC am sesiynau hyfforddi Côd Ymddygiad roeddent yn cynnal yn ystod Mehefin 2018.

**DERBYNIADAU:**

| | |
|---|---|
| Mr & Mrs Bailey – rhent tir | £10.00 |
| Mr C Robinson – rhent tir | £237.88 |
| Mr G James – rhent tir | £660.44 |

| | |
|---|---|
| CCC – praesept rhandaliad 1af | £2000.00 |

**BILIAU:**

| | |
|---|---|
| VisionICT – cynnal y wefan | £300.00 |
| VisionICT – ffi dwyflynyddol am adnewyddu.gov.uk | £66.00 |
| ICO – cofrestru diogelu data | £35.00 |
| SSE – trydan neuadd gymuned 25/1/18 – 20/4/18 | £578.24 |
| CCC – etholiadau cyngor cymuned 2017 | £183.42 |
| K Bowen – cyflog y clerc | £727.20 |
| HMRC – PAYE | £181.80 |
| R Davies – archwiliad mewnol | £54.00 |
| BHIB – adnewyddu yswiriant y cyngor | £561.25 |

**CYNLLUNIO:**

W/37145 – newid defnydd awgrymedig o droi sgubor yn lety gwyliau yn Llwyngarreg, Blaenwaun

**LLWYBRAU CYHOEDDUS:**

Hysbysodd CSC y cyngor fod ei cyllid ar gyfer gwella llwybrau cyhoeddus am y flwyddyn nesaf wedi ei lleihau yn sylweddol ac felly fyddent yn gyfyngedig yn y gwaith y fyddent yn gallu ei wneud.

Derbyniwyd llythyr oddi wrth Swyddog Datblygu Hawliau Ffordd Cyhoeddus CSC yn gofyn i gynghorau cymuned i ystyried cymryd rhan weithredol yn cadw i fyny at bump o'i llwybrau yn agored drwy dorri n'ol tyfiant a/neu trefnu gosod dodrefn cefn gwlad lle bod eisiau – CSC i gyflenwi'r deunydd. Ni fyddai hyn yn gytundeb ffurfiol na ymrwymiad am byth.

**U.F.A.**

Trafodwyd cytundeb pori newydd posibl i dir y cyngor.

Mae eisiau meinciau cyhoeddus newydd yn Heol Shôn a Chwmfelin Mynach. Clerc i gael prisiau am feinciau newydd.

Gan fod yna ddim rhagor o fusnes fe wnaeth y Gadair ddiolch i bawb oedd wedi mynychu a datganiodd y cyfarfod ar gau.

**Cynhelir y cyfarfod nesaf ar nos Fawrth 17eg o Orffennaf 2018 am 8.00yh yn Neuadd Gymuned Llanwinio.**